# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 4

TRINIAETHAU ARBENNIG

*Rhoi triniaeth arbennig: gofyniad trwyddedu*

PROSPECTIVE

### 59 Darpariaeth gyffredinol ynghylch trwyddedau triniaeth arbennig

(1) Mae trwydded triniaeth arbennig yn drwydded a ddyroddir gan awdurdod lleol o dan y Rhan hon.

(2) At ddibenion y Rhan hon, mae trwydded triniaeth arbennig yn awdurdodi i'r driniaeth arbennig (neu'r triniaethau arbennig hynny) a bennir yn y drwydded gael ei rhoi yng Nghymru gan ddeiliad y drwydded.

(3) Ond nid yw trwydded i gael ei thrin at ddibenion y Rhan hon fel pe bai'n awdurdodi i driniaeth arbennig gael ei rhoi mewn mangre neu mewn cerbyd yng Nghymru sydd naill ai wedi ei meddiannu neu ei feddiannu gan, neu sydd i unrhyw raddau yn cael ei rheoli neu ei reoli gan, neu sydd i unrhyw raddau o dan reolaeth—

(a) yr unigolyn sy'n rhoi'r driniaeth ("P"), neu

(b) pan fo P yn rhoi'r driniaeth o dan gontract gwasanaeth neu brentisiaeth, neu gontract am wasanaethau â pherson arall ("E"), E,

oni bai bod yr amodau yn is-adran (4) wedi eu bodloni.

(4) Yr amodau yw bod y fangre neu'r cerbyd—

(a) wedi ei nodi yn y drwydded, a

(b) wedi ei chymeradwyo neu wedi ei gymeradwyo o dan adran 70 mewn cysylltiad â'r driniaeth.

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 59 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 02 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(5) Ond nid yw is-adran (3) yn gymwys os nad yw'r gofyniad yn adran 69(2) (triniaeth i gael ei chynnal mewn mangre neu gerbyd a gymeradwywyd yn unig), yn rhinwedd rheoliadau o dan adran 69(8), yn gymwys mewn cysylltiad â'r fangre neu'r cerbyd o dan sylw.

(6) Mae'r cyfnod pan yw trwydded triniaeth arbennig yn awdurdodi i driniaeth arbennig gael ei rhoi i gael ei bennu yn y drwydded, a rhaid i'r cyfnod naill ai—

(a) bod yn gyfnod nad yw'n hwy na saith niwrnod, sy'n dechrau â dyddiad a bennir yn y drwydded, neu

(b) bod yn gyfnod o dair blynedd, sy'n dechrau â dyddiad dyroddi'r drwydded.

(7) Am ddarpariaeth ynghylch ceisiadau am drwyddedau triniaeth arbennig, ac ynghylch amrywio, adnewyddu a dirymu trwyddedau triniaeth arbennig, gweler Atodlen 3.

(8) Yn y Rhan hon—

(a) mae cyfeiriadau at gyfnod y drwydded, mewn perthynas â thrwydded triniaeth arbennig, yn gyfeiriadau at y cyfnod pan yw'r drwydded yn awdurdodi i driniaeth arbennig gael ei rhoi;

(b) mae cyfeiriadau at ddeiliad y drwydded, mewn perthynas â thrwydded triniaeth arbennig, yn gyfeiriadau at yr unigolyn y dyroddir y drwydded iddo;

(c) mae cyfeiriadau at drwydded dros dro yn gyfeiriadau at drwydded sy'n awdurdodi i driniaeth arbennig gael ei rhoi am gyfnod nad yw'n hwy na saith niwrnod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 59 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 59 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 02 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2